

Mae'n bosib iawn fod y rhai ohonoch fu'n ddisgyblion yma yn y 1960au neu'r 70au yn cofio oriel yr anfarwoliau ar wal yr Ystafell Gymraeg. Lluniau o feirdd a llenorion mawr ein cenedl ac yn eu plith un oedd wedi bod yn gyn-athro yma yn Ysgol Botwnnog, sef Waldo Williams. A dyna beth wnaeth i Gymdeithas Waldo o Sir Benfro gysylltu â'r ysgol yn ddiweddar i drefnu noson i ddathlu canmlwyddiant ei eni ar y cyd â Chyfeillion Llŷn a'r ddarlith flynyddol. Yn ystod y noson dadorchuddiwyd plac i goffau'r bardd gan Mrs. Kit Parri, gweddw un o'i gyd-athrawon yma yn yr ysgol, Gruffydd Parri. Cafwyd rhaglen ddifyr o eitemau gan gynnwys parti merched yr ysgol, Dewi Davies ac atgofion dau o gyn-ddisgyblion Waldo yma yn yr ysgol Mr. E.J. Jones a Mr. John Griffith Jones. Yn yr ail hanner roedd darlith flynyddol Cyfeillion Llŷn a Chymdeithas Waldo ar y cyd yn cael ei thraddodi gan Mr. Gareth Miles. Cynigwyd y diolchiadau gan y Dr. Robyn Léwis. Diolch i bawb am y trefniadau a'r gefnogaeth.



Demi Davies gyda plac Waldo

Yn ddiweddar aeth Bl 10 ac 11 i wyllo sioe *Blood Brothers* yn Venue Cymru, Llandudno. Dyma un o'r sioeau cerdd mwyaf poblogaidd gan Willy Russell. Mae'r sioe yn sôn am fam dlawd yn gorfod rhoi un o'i hefeilliaid i'w fagu i ddyns gyfoethog oedd yn methu beichiogi. Mae gweddill y sioe yn dangos bywydau'r ddau blentyn, Eddie a Mickey, a dylanwad y naill a'r llall ar eu bywydau a'u marwolaeth. Roedd yn berfformiad da iawn, gyda'r adroddwr yn perfformio'r cydwybod yn effeithiol iawn, yn ddistaw ac yn ddisylw fel y buasai cydwybod euog. Diolch yn fawr i'r Adran Saesneg am drefnu i ni gael gweld y sioe.

Lois Parry, Bl 10

Golygfa o gêm tîm pêl-droed genethod yr ysgol yn erbyn Ysgol Eifionydd

Mae tymor chwaraeon y genethod wedi cychwyn ar nodyn uchel gyda thîm pêldroed o dan bedair ar ddeg yn trechu Glan y Môr o 3 gôl i 0. Yn anffodus colli o 4 i 1 yn erbyn Ysgol Eifionydd fu hanes y genethod o dan un ar bymtheg ond pawb wedi ymdrechu yn galed ac wedi mwynhau a Rebecca Rice Hughes yn sgorio gôl arbennig.

Mae llwyddiant hefyd wedi ei brofi ar y caeau hoci gyda Magi Hughes a Ffion Williams wedi eu dewis i dîm hoci o dan un ar bymtheg Gwynedd. Dewiswyd Nel

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol ar eu canlyniadau Safon Uwch.

Rhodddwyd Gwobr Cronfa Goffa Iwan Medi Roberts am ganlyniadau Gwyddoniaeth a Mathemateg rhagorol i Robin Llŷr Evans, Llanbedrog.

Rhodddwyd gwobrau ariannol o Gronfa Hughes Thomas, Cronfa Dorothy Evans, Cronfa Mary Jones a Chronfa'r Ysgol i Ffion Enlli Roberts, Louis Dawson Jones, Iolo Bryn, Steffan Rees Jones, Sera Helen Griffith, Mirain Llŷn Roberts a Tom Cox.

Dymuniadau gorau i'n cyn-ddisgyblion.
Gobeithio eu bod wedi setlo yn eu
prifysgolion erbyn hyn.

Dymuniadau gorau hefyd i Llinos Hughes, cymhorthydd ar enedigaeth merch fach, Mirain Lliwen.



Gwen, Nel, Alice, Ffion a Magi

Hughes, Alice Williams a Gwen Hughes i sgwad o dan bedair ar ddeg Gogledd Cymru. Llongyfarchiadau i'r pump ohonoch a phob lwc yn y gemau sydd i ddod.

Disgyblion Bl 11 yn paratoi ar gyfer y Noson Goffi.

Cynhelir y Ffair Grefftau eleni yn Neuadd Hughes Thomas ar ddydd Sadwrn, 16eg o Dachwedd, rhwng 10 y bore a 3 y prynhawn. Bydd yno amrywiol stondinau, yn fwydydd, rafflau, cardiau, nwyddau 'Dolig, beiciau a.y.b. Dowch yn llu i'n cefnogi – siawns am anrheg Nadolig buan a chyfle i gefnogi crefftwyr lleol.

Dyma'r disgyblion sydd wedi cael eu hethol i gynrychioli bob dosbarth yng Nghyngor yr ysgol am y flwyddyn